# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Llun, 15fed Ionawr, 2024 at 10.00 am**

| **Councillors Present** | **Officers in Attendance** |
|---|---|
| Cynghorydd Sir Alistair Neill, (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Sir: Jill Bond, Paul Pavia, Peter Strong, Ann Webb, John Crook<br><br>Hefyd yn bresennol Cynghorydd Sir Ben Callard, Aelod Cabinet dros Adnoddau | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Paul Matthews, Prif Weithredwr<br>Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau<br>Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant<br>Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog<br>Ian Saunders, Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy |

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Sir Laura Wright

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Dim.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Dim.

3. **Monitro'r Gyllideb – Mis 6**

   Cyflwynodd yr Aelod Cabinet, Ben Callard, Peter Davies a Jonathan Davies yr adroddiad ac ateb cwestiynau aelodau gyda Tyrone Stokes, Will Mclean a Jane Rodgers..

   **Cwestiynau allweddol gan aelodau:**

   - Sut mae'r gorwariant mewn Gwasanaethau Oedolion yn mynd erbyn hyn? Sut mae costau Gofal yn cael eu lliniaru?
   - Beth fedrir ei wneud am gostau cludiant uchel iawn ADY?
   - A fedrwch egluro pa effaith y caiff llithriad cyfalaf ar gostau uwch?
   - A fedrwch esbonio yn fwy manwl y sefyllfa gyda phrydau ysgol?
   - Os caiff cronfeydd wrth gefn eu defnyddio nes nad oes mwy o hyblygrwydd, sut fyddwn ni'n medru ailweithio gwasanaethau fel eu bod ar dir mwy cadarn?
   - Rydym wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn i ailweithio gwasanaethau i'w rhoi ar lwybr cynaliadwy ond roedd rhagolwg gwariant Mis 6 yn waeth na Mis 5. Felly, a yw'r dull felly yn anghynaliadwy?
   - Beth yw ystyr 'mae risg difrifol yn parhau i gynaliadwyedd ariannol y cyngor yn y tymor agos'?

- Yng nghyswllt Gofal Cymdeithasol, a fedrwn ddeall ymhellach y materion yn ymwneud â galw a chymhlethdod, a sut y caiff ei reoli, yn arbennig o gofio am y ddemograffeg hŷn?
- Pa negeseuon ydyn ni'n eu rhoi i bartneriaid cyflenwi, yn arbennig feddygon teulu, yn y cyfnod hwn o alw uchel ar y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac a fedrir gwneud mwy i reoli risg yn nes gartref a chadw oedolion eiddil hŷn yn y gymuned, p'un ai mewn gofal preswyl neu eu cartrefi eu hunain?
- Dengys yr adroddiad arbedion mewn Twf Busnes a Menter a Phriffyrdd a Llifogydd, ond gallai'r cyhoedd ofyn i'r ardaloedd hynny gael blaenoriaeth o gofio ei fod yn amser heriol iawn i fusnesau, a bod problemau gyda ffyrdd – beth fyddai'r ateb iddynt?
- A fedrwn adfachu cost gofal iechyd parhaus o'r gorffennol?

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Cymeradwywyd yr argymhellion a chynigiwyd yr adroddiad.

4. **<u>Strategaeth Rheoli Asedau</u>**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Rachel Garrick a Peter Davies yr adroddiad ateb cwestiynau aelodau gyda Nicholas Keyse.

**Cwestiynau aelodau gan aelodau:**

- Beth yw'r meysydd o gonsyrn neilltuol sydd angen i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt?
- Mae maes parcio gwag mawr iawn yng Nghyffordd Twnnel Hafren, wedi'i seilio ar welliannau a datblygiadau. Os caiff y rheiny eu hoedi'n ddifrifol neu ddim yn digwydd, beth fyddai'r risg ariannol i'r cyngor? **<u>–GWEITHREDU (ymateb ysgrifenedig gan swyddogion)</u>**
- Sut ydyn ni'n cwmpasu ailddefnyddio ein hasedau adeiladu i'n cynorthwyo i ddatblygu mwy o ddarpariaeth gan yr awdurdod ar gyfer gofal cymdeithasol, yn arbennig Gwasanaethau Plant?
- Pa mor dda yw adnoddau a galluedd yr adran i gaffael asedau os yw darparwyr annibynnol yn gadael y farchnad?
- T21, dan amcan defnyddio asedau cymunedol i optimeiddio gwerth cymdeithasol, mae'r strategaeth yn dweud 'Gweithio i sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i gydraddoldeb a hygyrchedd wrth ddatblygu cynllun asedau maes gwasanaeth' – a yw'r gair 'ystyried' yn rhy wan? A ddylai'r ymddygiad neilltuol hwn fod ymhellach lan y rhestr?
- A allwn weld darpariaeth Newid Lleoedd ym mhob tref?
- A oes gennym unrhyw ffermydd garddwriaethol yn y 24 daliad fferm? A yw rhai ymgeiswyr yn cael sgôr uwch os ydynt yn gwthio syniadau ffermio mwy cynaliadwy a chyfeillgar i'r amgylchedd?
- Nid ydym yn cael enilliad o 2% ar Barc Hamdden Casnewydd – sut ydyn ni'n cynnig cyrraedd yno?
- Mae pryderon am risg o'r gostyngiad mewn rhaglenni cynnal a chadw gofal ac anghysondeb posibl yn ein dull gweithredu. Gyda'r sefyllfa ddiweddar yn Tŷ Arloesedd fel esiampl, ai dim ond edrych ar osod rhywbeth dros dro i atal y clwy ydym yn y dyfodol, oherwydd cyfyngiadau cyllideb?

- Gyda eiddo gwag, a yw'r asiant yn llwyr ymwybodol o beth rydym ei eisiau ar gyfer y dyfodol? Mae angen i ni gael ymagwedd mae'n rhwydd i denantiaid newydd ddod atom.
- A yw'n briodol cynnwys Ffigur 15 yn yr adroddiad hwn?
- A oes rhestr o asedau cofrestredig sy'n hygyrch i breswylwyr?
- Mae dau Ffigur 1 yn yr adroddiad – dylid ad-drefnu'r rhifau – ac angen esbonio'r llythrennau cyntaf a ddefnyddiwyd drwy'r holl adroddiad – **GWEITHREDU (Cynghorydd Bond i anfon rhestr o awgrymiadau am gywiriadau i swyddogion).**
- Mae'n dweud fod Parc Hamdden Casnewydd ar y ffin – onid yw hyn i gyd yng Nghasnewydd, ac felly mae angen newid hyn?
- A ydym yn destun rhewi ar recriwtio ar hyn o bryd ac a oes bylchau sgiliau yng nghyswllt recriwtio am feysydd y mae gennych bryderon amdanynt?
- A yw'r Aelod Cabinet yn hapus gyda chapasiti'r adran ar hyn o bryd?
- Mae'r adroddiad yn gryf ar yr hyn a wnaethom ond nid oes llawer o wybodaeth ar beth fydd y strategaeth ar gyfer yr asedau yn y dyfodol?
- A fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa well yn gwaredu i fenter ar y cyd gydag arbenigwr manwerthu a defnyddio cyfalaf hylif ar gyfer dibenion eraill?
- A fyddai'n fwy defnyddiol i breswylwyr gael eu datblygiadau wedi grwpio o amgylch ein trefi marchnad unigol?
- Mae'r strategaeth ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn dal yn ymddangos yn aneglur?
- A yw penderfynu ar strategaeth ar sail achos-wrth-achos drwy ddiffiniad ddim yn strategaeth?

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Diolch i'r Aelod Cabinet a swyddogion. Cynigiwyd yr argymhellion a'r adroddiad.

**5. Polisi Buddsoddi Asedau**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Rachel Garrick a Peter Davies yr adroddiad ac ateb cwestiynau aelodau gyda Jonathan Davies  Nicholas Keyse.

**Cwestiynau allweddol gan aelodau:**

- Gallai fod pryderon nad oes digon o arbenigedd perthnasol i drin buddsoddiadau masnachol a manwerthu – a allwn gael mwy o eglurdeb ar hynny, a'r broses gwneud penderfyniadau y mae'r adroddiad yn sôn amdani?
- Cafodd £30.7m o'r £50m o'r gronfa fenthyg eu gwario ar y buddsoddiadau, beth yw'r sefyllfa gyda'r £19.3m sydd ar ôl?
- A fedrwch esbonio'r gronfa ad-dalu?
- Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r buddsoddiadau hyn a'r portffolio? A fedrwn gael mwy o wybodaeth ar sut y caiff hynny ei wneud?
- A fedrwch gadarnhau ystyr yr ymadrodd 'ymddangos i awgrymu' ar dudalen 151?
- T150-2, mae'r adenilliad ar Castle Gate yn llai na 2% mae'r meini prawf yn sôn am fudd cymunedol – a ellir gwneud lle ar gyfer Cymdeithas Theatr Gerdd Cil-y-coed?
- Faint sydd yn y gronfa ad-dalu a faint o le sydd ynddi?
- I egluro, a oedd y gyfradd defnydd ym mis Tachwedd yn 85.6%?

- 2.2, i egluro cwmpas daearyddol y polisi, a fyddai hyn yn rho’r hyblygrwydd i edrych ar awdurdodau o fewn y Porth Gorllewinol?
- A yw parciau manwerthu yn enghraifft o ardaloedd y gallem ystyried dadfuddsoddi ynddynt, yn rhannol er mwyn cael cyd-berchnogaeth gyda grŵp er mwyn rhyddhau cyfalaf y gellid ei roi i gymorth mwy penodol i’r gymuned neu fusnes?

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Diolch i’r swyddogion am eu gwaith parhaus rhagorol. Mae’n dda gweld yn 5.2 y gwelliant ym mherfformiad y portffolio buddsoddi ac y rhagwelir y bydd y ddau fuddsoddiad manwerthu mawr yn cynhyrchu gwarged net ar ôl costau benthyca yn 24/25. Cymeradwywyd yr argymhellion a derbyniwyd yr adroddiad.

**6. <u>Cyfarfod Nesaf: 30ain Ionawr 2024</u>**

Gorfennodd y cyfarfod am **12.30 pm**